



# Modiwl 2

Awst 2022

# AMLINELLIAD AMODOL O'R CWMPAS

## (yn amodol ar gyflwyniadau gan Cyfranogwyr Craidd a Chwnsler i'r Ymchwiliad)

Bydd y modiwl hwn yn edrych ar, ac yn gwneud argymhellion ar, benderfyniadau craidd gwleidyddol a gweinyddol y DU mewn perthynas â'r pandemig Covid-19 rhwng dechrau Ionawr 2020 hyd Chwefror 2022, pan gafodd y cyfyngiadau Covid oedd yn weddill eu codi. Bydd yn craffu'n benodol ar y penderfyniadau a gymerwyd gan y Prif Weinidog a'r cabinet, fel y'u cynghorwyd gan y Gwasanaeth Sifiil, uwch gynghorwyr gwleidyddol, gwyddonol a meddygol, ac is-bwyllgorau Cabinet perthnasol, rhwng dechrau Ionawr a diwedd Mawrth 2020, pan gafodd y cyfyngiadau symud cenedlaethol cyntaf eu gosod.

Bydd Modiwl 2 yn archwilio:

1. Strwythurau a chyrrff llywodraeth ganolog yn ymwneud ag ymateb y DU i'r pandemig a'u perthnasoedd a'u cyfathrebiadau â'r gweinyddiaethau datganoledig yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon ac awdurdodau rhanbarthol a lleol.
2. Y ddealltwriaeth gyntaf o, a'r ymateb i, natur a lledaeniad Covid-19 yng ngoleuni gwybodaeth a dderbyniwyd oddi wrth Sefydliad Iechyd y Byd a chyrrff rhyngwladol a chenedlaethol perthnasol eraill, cyngor gan gynghorwyr gwyddonol, meddygol ac eraill a'r ymateb o wledydd eraill. Bydd hyn yn cynnwys strategaethau cychwynnol y llywodraeth ynglŷn â phrofi cymunedol, cadw gwylidwriaeth, y symudiad o 'gynnwys' i 'ohirio' a chyfarwyddyd a chyngor i ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol.
3. Y penderfyniadau'n ymwneud â gosod ymyriadau ledled y DU ac, yn ddiweddarach, ledled Lloegr o ymyriadau anfferyllol (NPIs), gan gynnwys y cyfyngiadau symud ym Mawrth-Gorffennaf 2020, Tachwedd-Rhagfyr 2020 a Ionawr-April 2021, cyfyngiadau lleol a rhanbarthol, cyfnodau atal byr, gweithio o gartref, lleihau cysylltiad unigolyn i unigolyn, cadw pellter cymdeithasol, y defnydd o orchuddion wyneb a rheoli ffiniau; amseroldeb

a rhesymoldeb y fath NPlau, gan gynnwys yr effeithiau tebygol pe byddai penderfyniadau i ymyrryd wedi cael eu cymryd yn gynharach, neu'n wahanol; datblygiad yr ymagwedd at NPlau yng ngoleuni'r ddealltwriaeth o'u heffaith ar drosglwyddo, heintio a marwolaeth; yr adnabyddiaeth o grwpiau mewn perygl a grwpiau eraill agored i niwed a rhai eraill o'r effaith debygol o'r NPlau a ystyriwyd ar grwpiau o'r fath yng ngoleuni anghydraddoldebau sy'n bodoli.

4. Mynediad at a defnydd mewn gwneud penderfyniadau o arbenigedd meddygol a gwyddonol, casglu data a modelu yn ymwneud â lledaeniad y feirws, gan gynnwys mesur a deall cyfraddau trosglwyddiad, heintiad, mwntaniad, ailheintio a marwolaeth; y system ardystio a marwoldeb gormodol; y berthynas rhwng a gweithrediad y systemau ar gyfer casglu, modelu a rhannu data rhwng adrannau llywodraeth a rhwng y llywodraeth, y GIG a'r sector gofal.
5. Cyfathrebiadau iechyd cyhoeddus mewn perthynas â chamau yn cael eu cymryd i reoli lledaeniad y feirws; tryloywder negeseuon y llywodraeth; y defnydd o reolaeth ymddygiadol a chynnal ymddiriedaeth gyhoeddus yn llywodraeth y DU, gan gynnwys effaith toriadau honedig o reolau a safonau gan Weinidogion, swyddogion a chynghorwyr.
6. Y ddeddfwriaeth a rheoliadau iechyd cyhoeddus a choronafeirws a gafodd eu cynnig a'u deddfu: eu cymesurolfdeb a'u gorfodaeth.



© Crown copyright 2022

This publication is licensed under the terms of the Open Government Licence v3.0 except where otherwise stated. To view this licence, visit

[nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3](https://nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3)

Where we have identified any third party copyright information you will need to obtain permission from the copyright holders concerned.

This publication is available at <https://covid19.public-inquiry.uk/>

Any enquiries regarding this publication should be sent to us at [contact@covid19.public-inquiry.uk](mailto:contact@covid19.public-inquiry.uk).